Elin Jones AC

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

20 Rhagfyr 2019

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Annwyl Elin

Diolch am eich llythyr yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn perthynas â phenderfyniad y Pwyllgor Busnes ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Nododd y Pwyllgor eich papur yn ein cyfarfod ar 11 Rhagfyr, a chytunodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol imi ateb i amlinellu sefyllfa bresennol y Pwyllgor.

Rydym yn derbyn y dyddiad cau ac wedi dechrau cymryd tystiolaeth lafar gan randdeiliaid. Roeddem wedi gobeithio defnyddio ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr, ond nid oedd hynny’n bosibl gan nad oedd tystion ar gael ar fyr rybudd. Gwnaethom lwyddo i gael tystion ar gyfer ein cyfarfod ar 11 Rhagfyr, ond roedd hyn yn broblematig. Roedd yn fwriad gennym glywed gan gynrychiolwyr llywodraeth leol ar y cyfle cyntaf, ond bu’n rhaid inni newid ein hamserlen gan nad oedd modd i’r tystion hynny roi tystiolaeth ar Fil mor eang o fewn yr amser hwnnw. Ychwanegodd etholiad cyffredinol y DU at eu hanawsterau.

Mae Etholiad Cyffredinol y DU hefyd wedi effeithio ar ein gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid etholiadol yn gynnar yn y broses, gan ei bod wedi bod yn gyfnod arbennig o brysur iddynt.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
0300 200 6565

Lle yr ydym wedi llwyddo i gael tystion, maent wedi gwneud sylwadau ar yr amserlen dynn iawn ar gyfer trefnu tystiolaeth ysgrifenedig ac ymddangos ger ein bron, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am fod ar gael ar fyr rybudd ac am aildrefnu eu hamserlenni lle y bu angen. Mae'r amser yr ydym wedi gallu ei bennu ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus hefyd wedi bod yn gyfyngedig, ac mae sawl rhanddeiliad wedi sôn am yr anawsterau sy’n codi o’r herwydd. Mae hyn yn rhwystredig iawn i ni, ac i’r rhanddeiliaid, gan ein bod am glywed cynifer o safbwyntiau â phosibl ar ddarn o ddeddfwriaeth mor helaeth a phwysig.

Rydym yn croesawu bwriad y Pwyllgor Busnes i edrych ar amserlennu gwaith craffu ar ddeddfwriaeth wrth baratoi ar gyfer y Chweched Cynulliad. A ninnau’n Bwyllgor sydd wedi craffu ar nifer o Filiau yn ystod y Cynulliad hwn, a chan ein bod yn disgwyl sawl un arall, fe gredwn y dylid pennu dim llai na 12 wythnos ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, gyda disgwyliad y bydd amser ychwanegol ar gyfer Biliau sy’n arbennig o fawr neu’n ddadleuol. Mae hefyd yn bwysig ystyried ffactorau eraill y tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor, megis toriadau, ymrwymiad deddfwriaethol arall ac, fel yn yr achos penodol hwn, etholiad cyffredinol y DU.

Yn gywir

John

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.